Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol Adroddiad Cryno

## Adroddiad Cryno

Medi 2021

Cadeirydd: Y Barnwr Ray Singh, CBE. LLD Anrh.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43646 ISBN digidol 978-1-80391-298-1

# Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol - Adroddiad Cryno. Medi 2021

## Rhagair y Cadeirydd

Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn drychineb aruthrol na phrofwyd mo'i debyg gan y byd ers dros 100 mlynedd.

Roedd yn gyfnod digynsail a effeithiodd ar unigolion a theuluoedd mewn cynifer o wahanol ffyrdd. Collodd llawer o bobl anwyliaid i feirws COVID-19, heb allu bod yn eu cwmni yn ystod eiliadau olaf gwerthfawr eu bywyd a chan orfod galaru yn y ffordd fwyaf trawmatig, heb allu dod at ei gilydd i dalu teyrnged yn y modd arferol.

Yng Nghymru, yn gymharol agos at ddechrau'r pandemig, dechreuodd yr ystadegau ddangos effaith anghymesur feirws COVID-19 ar gymunedau Du, Asiaidd ac ething leiafrifol. Datgelodd yr ystadegau fod pobl ethnig leiafrifol sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol bedair gwaith yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r feirws a marw o ganlyniad iddo na'u cydweithwyr gwyn.

Er bod y ffactorau economaidd-gymdeithasol hirsefydledig a hiliaeth systemig a strwythurol wedi cael effaith fwy amlwg ar ein cymunedau, roedd angen i ni gymryd camau brys i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn ein cymunedau ethnig lleiafrifol.

Ysgrifennais at y Gwir Anrhydeddus Brif Weinidog Cymru Mark Drakeford AS, fel Cadeirydd Race Council Cymru, gan fynegi ein pryderon difrifol am yr effaith gymesur yr oedd COVID-19 yn ei chael ar gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol ledled Cymru.

Ymatebodd y Prif Weinidog ar unwaith a sefydlodd Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gofyn i mi gadeirio'r Grŵp. Gwirfoddolais hefyd i helpu Llywodraeth Cymru i ddod â thîm cadarn o arbenigwyr ynghyd i gynghori'r Prif Weinidog. Roeddwn yn ffodus iawn cael Dr Heather Payne yn fy nghynorthwyo fel fy nghynghorydd technegol a heb ei chymorth a'i harweiniad, ni fyddwn wedi gallu cyflawni cymaint mewn cyfnod mor fyr o amser.

Roedd yr ymyriad gan y Prif Weinidog Mark Drakeford wrth sefydlu'r Pwyllgor Cynghori, yn cynnwys yr Athro Keshav Singhal, Cadeirydd BAPIO Cymru, a ymunodd â'r Pwyllgor Cynghori ar ôl mynegi pryderon tebyg yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog. Gyda'n gilydd, gwnaethom ddechrau ystyried yr effeithiau anghymesur hyn, gan arwain at yr adroddiad hwn.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori, lluniais ddau is-grŵp – yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol wedi'i gadeirio gan yr Athro Emmanuel Ogbonna a'r is-grŵp Asesu Risg wedi'i gadeirio gan yr Athro Keshav Singhal.

Datblygodd yr is-grŵp Asesu Risg Becyn Cymorth Asesu Risg Cymru Gyfan, y cyntaf o'i fath yn y DU, a gafodd ei lansio a'i argymell i'w ddefnyddio ledled Cymru gan roi pwyslais cryf ar y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.

Lluniodd y grŵp economaidd-gymdeithasol ei adroddiad yn nodi bod hiliaeth strwythurol a systemig yn parhau i chwarae rhan allweddol ym mywydau cymunedau ethnig lleiafrifol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion yr adroddiad a chymerodd gamau ar unwaith i'w rhoi ar waith.

Chwaraeodd yr adroddiad ran sylweddol wrth helpu i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol i Gymru 2020-2025, yr ydym yn obeithiol y bydd yn cyflwyno newidiadau i leihau'r effeithiau anghymesur sydd wedi treiddio i'r cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol cyn y pandemig ac yn ystod y pandemig.

Gan weithio'n agos gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Jane Hutt AS, cyhoeddwyd "Y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol" i ymgynghori arno ym mis Mawrth 2021. Y nod hirdymor yw y bydd y cynllun gweithredu hwn yn ymdrin â'r anghydraddoldebau hiliol sy'n bodoli eisoes ac yn sicrhau canlyniadau tecach, cynhwysol a chyfwerth i bawb.

Rwy'n gobeithio y bydd y cynllun hwn, pan gaiff ei roi ar waith yn llawn, yn arwain at ganlyniadau cyfartal ac at Gymru wirioneddol amrywiol a gwrth-hiliol.

**Y Barnwr Ray Singh, CBE. LLD Anrh.**

**Cadeirydd, Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol**

## Cyflwyniad

Dros ddeunaw mis yn ôl, tarwyd Cymru, gweddill y byd a'r DU gan donnau cychwynnol pandemig, ac yn ystod y dyddiau cynnar hynny, dim ond ychydig o wybodaeth oedd gennym am COVID-19.

Daeth tystiolaeth gynyddol i'r amlwg o effaith anghymesur haint COVID-19 ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol (lleiafrifoedd ethnig).

Dangosodd data cynnar o'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys fod tua thraean o'r cleifion a gafodd eu derbyn i Uned Gofal Dwys ag achosion wedi'u cadarnhau o'r coronafeirws yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, gan ddangos amlder uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd o ystyried cyffredinrwydd y feirws ymhlith y boblogaeth gyffredinol. At hynny, dangosodd data (a gyhoeddwyd yn yr *Health Service Journal*) gyfradd anghymesur o uchel o unigolion ethnig lleiafrifol ymhlith gweithwyr iechyd a gofal a fu farw o COVID-19, gan dynnu sylw at yr angen i amddiffyn gweithlu'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol, sef asgwrn cefn yr ymateb i'r pandemig.

Er mwyn deall pam roedd effaith mor anghymesur ar ein cymunedau ethnig lleiafrifol, roedd angen nodi'r dystiolaeth er mwyn gweithredu ar sail gwybodaeth i leihau niwed y gellid ei osgoi i'r grwpiau agored i niwed hyn.

Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar fyrder, a chan weithredu ar sail drawslywodraethol, aeth ati i sefydlu'r Grŵp Cynghori ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, wedi'i gadeirio gan y Barnwr Ray Singh ym mis Ebrill 2020.

## Y Grŵp Cynghori ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Ym mis Ebrill 2020, daeth tystiolaeth gynyddol i'r amlwg o effaith anghymesur COVID-19 ar bobl ethnig leiafrifol. Hyd yn oed cyn cael tystiolaeth glir, roedd y darlun datblygol hwn yn achosi pryder sylweddol. Yn erbyn y cefndir hwn, aeth Llywodraeth Cymru ati'n ddi-oed i sefydlu Grŵp Cynghori Arbenigol i roi cyngor i'r Prif Weinidog

a'r Cabinet. Roedd y cyfarwyddyd yn syml – dysgu'n gyflym a chymryd y camau priodol i amddiffyn y rheini a oedd yn gweithio mor galed ar reng flaen ein sector iechyd a gofal ac achub bywydau. Cafodd y Grŵp Cynghori (y ceir ei gylch gorchwyl yn Atodiad 1) ei gefnogi gan ddau is-grŵp. Aeth y cyntaf ati i ystyried y dystiolaeth ddatblygol a ffordd ymlaen yng nghyd-destun ymyriadau i asesu'r risg i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a'r ail i roi cyngor ar ffactorau economaidd-gymdeithasol a phenderfynyddion cymdeithasol ehangach sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd COVID-19 ymhlith pobl ethnig leiafrifol.

Gweithiodd y Grŵp Cynghori a'i is-grwpiau gyda rhanddeiliaid o gymunedau ethnig lleiafrifol a chynghorwyr arbenigol yng Nghymru a ledled y DU, er mwyn gweithio'n gyflym i rannu gwybodaeth ac ystyried opsiynau ar gyfer unioni effaith y pandemig ar boblogaethau agored i niwed.

Cynhaliwyd dadansoddiad o amrywiaeth o ddata ystadegol a oedd ar gael am amgylchiadau'r boblogaeth grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru er mwyn helpu'r Grŵp Cynghori. Roedd y dadansoddiad yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau ac yn ymdrin â meysydd a oedd yn cynnwys cyflogaeth, tai, tlodi ac amddifadedd yn ogystal â data ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19, a chleifion sy'n ddifrifol wael mewn unedau gofal dwys yng Nghymru.

Cyhoeddwyd y dadansoddiad hwn fel erthygl ystadegol, *Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru* ym mis Mehefin 2020 i gyd-fynd â chyhoeddi adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol.

Rhoddwyd diweddariadau pellach i'r Grŵp Cynghori tan ddiwedd 2020 er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r data newydd a ryddhawyd ers mis Mehefin, yn arbennig am farwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 fesul grŵp ethnig a galwedigaeth ac am gleifion sy'n ddifrifol wael mewn unedau gofal dwys.

Mae gwaith y Grŵp Cynghori wedi darparu gwybodaeth ac wedi helpu i amddiffyn iechyd a llesiant ein cymunedau, ac wedi rhoi cyngor wedi'i deilwra'n well i weithwyr

iechyd, gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr eraill. Yn dilyn trafodaethau'r Grŵp Cynghori ar y strategaeth frechu, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydraddoldebau ac Ymgysylltu'r Bwrdd Brechiadau er mwyn sicrhau bod mythau yn cael eu chwalu, a bod pob cymuned yn cael gwybodaeth gywir er mwyn annog unigolion i gael brechiad. Roedd y canlyniad hwn yn un cadarnhaol iawn.

## Is-grŵp Asesu Risg

Prif gylch gwaith yr Is-grŵp Asesu Risg, a gadeiriwyd gan yr Athro Keshav Singhal, oedd ystyried y dystiolaeth ddatblygol, er mwyn gwneud argymhellion i Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar asesu'r risg yn y gweithle i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yng Nghymru.

Ystyriodd yr Is-grŵp Asesu Risg (y ceir ei gylch gorchwyl yn Atodiad 2) amrywiaeth o ddulliau ar gyfer asesu risg gan ddefnyddio adnoddau a oedd yn bodoli eisoes ac yn cael eu defnyddio mewn mannau eraill yn ogystal ag amrywiaeth eang o dystiolaeth a nifer o adolygiadau. Daeth y grŵp i'r casgliad fod cyfuniad o amrywiol ffactorau yn cyfrannu at ddifrifoldeb yr haint, gan gynnwys oedran ac ethnigrwydd.

Yn sgil hyn, lluniwyd a mireiniwyd Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu, sef adnodd hunanasesu syml, hawdd i'w ddefnyddio a gynlluniwyd er mwyn bod yn addas i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw aelodau o staff iechyd a gofal cymdeithasol, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd.

Mae'r Adnodd yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau iechyd a llesiant yn ogystal â'r mathau o ymddygiadau presennol a pharhaus y dylid eu harfer er mwyn osgoi haint COVID-19. Mae'r Adnodd, sy'n adnodd byw o hyd ar hyn o bryd, hefyd yn cynnig ffordd gyson o ddogfennu risgiau a materion os oes angen gweithredu ymhellach, er enghraifft uwchgyfeirio achos neu gynnal asesiad iechyd galwedigaethol ychwanegol. Pwysigrwydd yr Adnodd yw'r drafodaeth am ganlyniad yr asesiad rhwng y cyflogai a'r rheolwr llinell er mwyn sicrhau y caiff camau lliniaru eu rhoi ar waith pan fo angen er mwyn osgoi niwed.

Cyflwynwyd yr Adnodd, a oedd ar gael yn wreiddiol ar ffurf PDF ar-lein / fersiwn bapur, ar lwyfan Dysgu @ Cymru, lle roedd ar gael i weithwyr y sector cyhoeddus ar ffurf e-Adnodd ac i staff y GIG drwy'r Cofnod Staff Electronig.

Diwygiwyd yr Adnodd ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer cyd-destun gwahanol weithleoedd, gan gyflwyno fersiwn sector benodol ar gyfer Addysg, yn ogystal â fersiwn fwy cyffredinol ar gyfer 'sectorau eraill'. Mae'r Adnodd bellach yn cael ei ddefnyddio mewn nifer o weithleoedd y tu allan i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mireiniwyd yr adnodd ar-lein i sicrhau y gellir cofnodi a dadgyfuno data ar y gwahanol sectorau cyhoeddus sy'n cwblhau'r asesiad at ddibenion dadansoddi data.

Er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth mor eang â phosibl o'r Adnodd, cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu i gyd-fynd â'r Adnodd a oedd yn cynnwys animeiddiad ar sut i ddefnyddio'r Adnodd.

Mae'r Is-grŵp wedi ystyried ac wedi adolygu tystiolaeth a chyngor arbenigol yn barhaus er mwyn sicrhau bod yr Adnodd yn parhau'n gyfredol a'i fod yn adlewyrchu canllawiau diweddaraf y llywodraeth. Caiff yr Adnodd ei ategu gan ganllawiau a chwestiynau cyffredin a gaiff eu hadolygu, ochr yn ochr â'r Adnodd, yn unol â newidiadau polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyson â'r Undebau Llafur, y Byrddau Iechyd a chyflogwyr y GIG i sicrhau y caiff y canllawiau a'r cwestiynau cyffredin eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y ddau yn parhau i gefnogi staff a chyflogwyr wrth i'r feirws ddatblygu.

Nid yw'r Is-grŵp yn weithredol ar hyn o bryd, ond deellir y gellir gofyn iddo ailgynnull os bydd angen gwneud hynny.

Ceir crynodeb manylach o waith yr Is-grŵp Asesu Risg yn Atodiad 4.

## Data'r Adnodd Asesu Risg

Tabl 1: Nifer ac Ethnigrwydd GIG Cymru (cymhariaeth 5 mlynedd) – Awst 2015 - Awst 2020

| Ethnigrwydd | 2015-AWST | % | 2020-AWST | % |
|---|---|---|---|---|
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | 2,648 | 3.1 | 3,407 | 3.5 |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | 432 | 0.5 | 800 | 0.8 |
| **Cymysg** | 464 | 0.5 | 752 | 0.8 |
| **Heb ei ddatgan** | 13,152 | 15.5 | 6,086 | 6.2 |
| **Grwpiau Ethnig Eraill** | 851 | 1.0 | 1,215 | 1.2 |
| **Gwyn** | 63,613 | 75.1 | 79,585 | 81.7 |
| **Anhysbys** | 3,528 | 4.2 | 5,625 | 5.8 |
| **Cyfanswm** | 84,688 | 100.0 | 97,470 | 100.0 |
| | | | | |

Ffynhonnell Data: ESR DW (DDRB 2021-2022)

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru – proffil y gweithlu 2019 o wasanaethau darparwyr gofal wedi'u comisiynu yn nodi bod 83% o'r staff a gyflogir gan ddarparwyr gofal wedi'u comisiynu a nododd eu hethnigrwydd wedi datgan eu bod yn Wyn. Roedd yn well gan 11% o staff beidio â datgan eu hethnigrwydd. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad ar lefel awdurdodau lleol o ethnigrwydd staff darparwyr gofal wedi'u comisiynu.

Tabl 2: Canran staff darparwyr gofal wedi'u comisiynu yn ôl ethnigrwydd, fesul awdurdod lleol a rhanbarth, 2019

%

| | Gwyn | Grwpiau ethnig cymysg/ lluosog | Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig | Du/ Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig | Grŵp ethnig arall | Gwell beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 99 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 75 | 1 | 1 | 1 | 0 | 22 |
| Conwy | 91 | 1 | 2 | 1 | 1 | 4 |
| Sir Ddinbych | 77 | 1 | 4 | 1 | 5 | 12 |
| Sir y fflint | 95 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Wrecsam | 92 | 1 | 1 | 1 | 1 | 5 |
| Gogledd Cymru | 87 | 1 | 2 | 1 | 1 | 8 |
| Powys | 86 | 1 | 1 | 1 | 1 | 11 |
| Ceredigion | 87 | 1 | 2 | 2 | 1 | 8 |
| Sir Benfro | 83 | 3 | 1 | 0 | 0 | 13 |
| Sir Gaerfyrddin | 90 | 1 | 2 | 1 | 1 | 6 |
| Canolbarth & Gorllewin | 86 | 1 | 2 | 1 | 1 | 9 |
| Abertawe | 72 | 1 | 4 | 2 | 1 | 19 |
| Castell Nedd Port Talbot | 90 | 1 | 2 | 1 | 1 | 5 |
| Pen y Bont ar Ogwr | 78 | 0 | 1 | 0 | 0 | 20 |
| Bae'r Gorllewin | 79 | 1 | 3 | 2 | 1 | 15 |
| Bro Morgannwg | 74 | 3 | 1 | 2 | 4 | 16 |
| Rhondda Cynon Taf | 91 | 1 | 1 | 1 | 0 | 6 |
| Merthyr Tudful | 90 | 0 | 1 | 1 | 1 | 7 |
| Torfaen | 89 | 2 | 2 | 1 | 0 | 6 |
| Sir Fynwy | 84 | 3 | 1 | 1 | 1 | 9 |
| Casnewydd | 81 | 3 | 5 | 3 | 2 | 6 |
| Caerdydd | 61 | 4 | 6 | 4 | 2 | 23 |
| Blaenau Gwent a Chaerffili | 89 | 1 | 1 | 1 | 1 | 8 |
| De-Ddwyrain | 80 | 2 | 3 | 2 | 1 | 11 |
| **Cymru** | 83 | 2 | 2 | 1 | 1 | 11 |

Cafodd yr Is-grŵp Asesu Risg adroddiadau dadansoddi data rheolaidd ar gyfraddau cwblhau'r adnodd gan gynnwys dadansoddiadau yn ôl sector, ethnigrwydd, oedran a sgôr risg. Dangosodd y dadansoddiad data diweddaraf (*25 Mehefin 2021*):

- Adeg cyhoeddi'r templed adroddiad cyntaf ar 01/10/2020, cyflwynwyd cyfanswm o ychydig llai na 18,000 o adroddiadau. Pan ddaeth y dadansoddiad i ben ar 25/06/2021, cyflwynwyd cyfanswm o ychydig dros 74,000 o adroddiadau. Roedd hyn yn cynnwys llwyfannau Dysgu@Cymru a Chofnodion Staff Electronig.

- Yn seiliedig ar yr adroddiad diwethaf ym mis Mehefin 2021, roedd 96% o'r holl adroddiadau a gyflwynwyd gan y sector iechyd.

- Nifer y cyflwyniadau 'Anghyflawn' ar draws pob sector ym mis Hydref 2020 oedd 18%, a ostyngodd i 2% erbyn mis Mehefin 2021.
  *Noder: Mae'r gyfradd cwblhau yn ymwneud â phob cwestiwn ffactor risg a atebwyd. Ystyrir nad yw'r rheini ag atebion coll wedi cwblhau'r asesiad.

- Bwrdd Iechyd Felindre oedd â'r ganran uchaf o staff a gwblhaodd yr asesiad yn eu Cofnodion Staff Electronig, sef 71%. Roedd Betsi, Aneurin Bevan a CTM yn agos ati, gyda phob un â chanran o dros 60%.

- BIP Betsi Cadwaladr o gyflwynodd y nifer uchaf o adroddiadau ar y Cofnodion Staff Electronig, gan gyflwyno cyfanswm o dros 23,700.
  *Noder: Os bydd rhywun wedi cwblhau'r asesiad fwy nag unwaith, cânt eu cyfrif fwy nag unwaith.

- Roedd tri uchafbwynt o ran cyflwyno data drwy Gofnodion Staff Electronig yn ystod y cyfnod amser, sef 28 Gorffennaf 2020, 14 Awst 2020 a 3 Mawrth 2021.

- Ar adeg yr adroddiad diwethaf, roedd y proffil risg ar draws pob sector a gategoreiddiwyd fel 'Risg Isel' yn 94%, a dim ond 0.4% oedd yn cael eu hystyried yn 'Risg Uchel Iawn' neu'n 'Agored i Niwed yn Glinigol'.

Tabl 3: Unigolion a gwblhaodd yr Adnodd Asesu Risg yn ôl lefel risg a chyflogwr Hydref 2020 i Fehefin 2021

| | Risg Isel | Risg Uchel | Risg Uchel Iawn | Yn agored i niwed yn glinigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd** | 67,190 | 3,843 | 74 | 89 | 71,196 |
| **Addysg Bellach** | 696 | 27 | 25 | 29 | 777 |
| **Gofal Cymdeithasol** | 600 | 32 | 7 | 28 | 667 |
| **Arall** | 473 | 23 | 8 | 14 | 518 |
| **Addysg** | 400 | 19 | 8 | 6 | 433 |
| **Awdurdod Lleol** | 189 | 6 | - | - | 195 |
| **Gofal Sylfaenol** | 164 | 13 | 3 | 10 | 190 |
| **Rhannau eraill o'r Sector Cyhoeddus** | 114 | 11 | - | - | 125 |
| **Gofal Plant** | 66 | 4 | 7 | - | 77 |
| **Sector preifat** | 30 | 1 | - | - | 31 |
| **Heb ei ddatgan** | 23 | 2 | - | 1 | 26 |
| **Gwaith Ieuenctid** | 9 | 1 | - | - | 10 |
| **Yr Heddlu** | 9 | - | - | - | 9 |
| **Gwaith chwarae** | 5 | - | - | - | 5 |
| **Myfyrwyr** | 1 | - | - | - | 1 |
| **Pob Sector** | 69,969 | 3,982 | 132 | 177 | 74,260 |

## Arolwg o'r Adnodd Asesu Risg

Er mwyn deall sut roedd yr Adnodd yn cael ei ddefnyddio a'i effeithiolrwydd, comisiynwyd arolwg (heb ei gyhoeddi) a oedd yn anelu at feithrin dealltwriaeth well o'r Adnodd o ran pa mor hawdd ydoedd i'w ddefnyddio, a yw wedi arwain at newid o

ran arferion gwaith ac i ba raddau yr ystyrir ei fod yn cofnodi'r risg o COVID-19 yn gywir.

Roedd rhai o'r prif ganfyddiadau yn cynnwys y canlynol:

- Nododd ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi cwblhau'r fersiwn pdf ar-lein/ar y sgrîn (31.2%) neu'r fersiwn papur (16.3%), gan olygu felly mewn gwirionedd nad oedd canran fawr o'r ymatebwyr wedi'u mewngofnodi wrth gwblhau'r adnodd risg. Cwblhaodd bron i draean o'r ymatebwyr fersiwn Cofnod Staff Electronig yr adnodd risg a oedd ar gael i staff y GIG (29.8%).
- Yn y rhan fwyaf o achosion, sgoriodd ymatebwyr i'r arolwg risg isel (71.1%), gyda dim ond ychydig dros un rhan o bump ohonynt yn sgorio risg uchel neu uchel iawn (20.4%).
- Roedd ychydig o dan dwy ran o dair o'r ymatebwyr (64.2%) o'r farn bod y sgôr a gawsant yn yr asesiad risg yn gywir.
- Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg (51.0%) eu bod wedi trafod eu sgôr risg â'u rheolwr llinell/goruchwyliwr, a nododd 13.0% o'r ymatebwyr eu bod wedi/y byddant yn gwneud trefniadau o'r fath neu nad ydynt wedi penderfynu eto a ddylent wneud hynny. Nododd ychydig dros draean o'r ymatebwyr nad oeddent wedi gwneud unrhyw drefniadau i drafod eu sgôr risg â'u rheolwr/goruchwyliwr (35.9%). Y rheswm mwyaf cyffredin am hyn oedd nad oedd angen gwneud hynny.
- Nododd bron i chwarter y rheini a atebodd arolwg AWCWRAT eu bod wedi newid eu harferion gwaith o ganlyniad uniongyrchol i gwblhau'r Adnodd (22.6%).

## Is-grŵp Gweithredu Gofal Cymdeithasol

Sefydlwyd yr is-grŵp Gweithredu Gofal Cymdeithasol, a gadeiriwyd gan Andrea Street yn wreiddiol, i sicrhau bod anghenion y sector gofal cymdeithasol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu camau gweithredu mewn perthynas â COVID-19, gan gynnwys sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol a'r rheini sy'n gweithio ym mhob rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r datblygiadau i amddiffyn staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig.

Yn nodweddiadol, mae'r sector yn cynnwys tua 64,000 o weithwyr y mae 4.3% ohonynt yn bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac amrywiaeth eang o gyflogwyr, y caiff llawer ohonynt eu hystyried yn fusnesau bach a chanolig (BBaChau).

Un o elfennau allweddol gwaith y grŵp oedd helpu i roi Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu ar waith yn y sector gofal cymdeithasol. Adolygodd yr is-grŵp ddata perthnasol ar y gweithlu ac ystyriodd ddynameg sut i roi'r Adnodd ar waith mewn ffordd gadarn gan sicrhau'r effaith a'r cwmpas mwyaf posibl.

Aeth yr is-grŵp Gweithredu Gofal Cymdeithasol ati i geisio deall effaith COVID-19 ar weithwyr ethnig lleiafrifol a oedd wedi'u cyflogi yn y sector gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol, ac i ddeall effaith y broses o roi'r adnodd ar waith a'i ddefnyddio ar unigolion a darparwyr.

Mae aelodau'r is-grŵp wedi helpu i ddatblygu Adnodd Cymru Gyfan er mwyn gallu ei ddefnyddio yn y sector gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r grŵp wedi sicrhau bod rôl y sector gofal cymdeithasol wedi'i bwysleisio ac y caiff ei chydnabod yn llawn yn y canllawiau sy'n ategu'r adnodd. Er mwyn ategu hyn, lluniwyd deunydd ffilm penodol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar y pryd yn hyrwyddo'r adnodd.

Sefydlodd yr is-grŵp hyrwyddwyr gweithredu ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn helpu i roi'r adnodd ar waith a rhoi adborth ar y defnydd ohono ac unrhyw amharodrwydd i wneud hynny. Llwyddodd i ddefnyddio'r hyrwyddwyr hefyd i ymgysylltu â'r gwaith dilynol gan y gwasanaeth Tracio ac Olrhain ar ôl cyflwyno'r brechlyn.

Datblygwyd ymgyrch gyfathrebu gychwynnol ar y cyd gan gynnwys animeiddiad yn esbonio rhesymeg yr adnodd i'w chynulleidfa. Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu benodol arall ym mis Mawrth 2021, yn targedu'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn pwysleisio'r angen i'r gweithlu gofal cymdeithasol barhau i fonitro ei risg mewn perthynas â COVID-19 ac i barhau i ddefnyddio'r adnodd. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys sesiynau gweminar (a fynychwyd gan dros 100 o unigolion), cylchlythyr

ADSS Cymru a gohebiaeth uniongyrchol â chyflogwyr, gan gynnwys poster a anfonwyd i leoliadau gofal perthnasol.

Dangosodd y dadansoddiad diweddaraf o'r data (*25 Mehefin 2021*) fod 0.9% o gyfanswm y bobl a gwblhaodd yr adnodd asesu risg ar-lein yn dod o'r sector gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, yn dilyn adborth gan y sector, nododd fod y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio fersiwn PDF neu fersiwn bapur yr adnodd yn hytrach na'r fersiwn ar-lein.

Nododd arolwg o gyflogwyr a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020, a oedd yn cynnwys cartrefi gofal, gofal cartref a mathau eraill o sefydliadau gofal, o blith y 320 o gyflogwyr a ymatebodd, fod dros 12,000 o gyflogeion (20% o gyfanswm y gweithlu Gofal Cymdeithasol) wedi cwblhau asesiad risg.  Roedd ychydig dros eu hanner wedi defnyddio'r fersiwn PDF, roedd chwarter wedi defnyddio'r fersiwn ar-lein ac roedd chwarter wedi ei gwblhau drwy ddull arall.

Er mwyn sicrhau y caiff cysylltiadau eu cynnal â'r sector, er mwyn ymdrin ag unrhyw newidiadau i'r adnodd ac i gefnogi'r ymgyrchoedd cyfathrebu yn y dyfodol, bydd yr is-grŵp yn parhau i fodoli fel grŵp cyfeirio.

## Is-grŵp Ffactorau Economaidd-gymdeithasol

Archwiliodd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol, a gadeiriwyd gan yr Athro Emmanuel Ogbonna, y ffactorau economaidd-gymdeithasol a gyfrannodd at effaith anghymesur COVID-19 ar ein cymunedau ethnig lleiafrifol. Roedd yr Is-grŵp (y ceir ei gylch gorchwyl yn Atodiad 3) yn gyfrifol am roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ffactorau economaidd-gymdeithasol a phenderfynyddion cymdeithasol ehangach sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd COVID-19 ymhlith pobl ethnig leiafrifol.

Lluniodd y grŵp adroddiad cynhwysfawr ym mis Mehefin 2020. Tynnodd yr Adroddiad sylw at yr anghydraddoldebau dwfn a brofir gan bobl ethnig leiafrifol a waethygwyd gan COVID-19. Tynnodd yr adroddiad sylw at brofiadau bywyd pobl o hiliaeth, diwylliant a oedd yn bodoli eisoes o wahaniaethu ar sail hil, ac

anghydraddoldebau strwythurol yng Nghymru yn yr oes sydd ohoni, gan annog newid drwy gyflwyno 37 o argymhellion.

Ym mis Medi 2020, rhoddodd y Prif Weinidog ymateb manwl i argymhellion adroddiad economaidd-gymdeithasol y Grŵp Cynghori ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mewn ymateb i'r argymhellion, nododd y Prif Weinidog fod camau gweithredu eisoes ar waith, wedi cael eu cwblhau neu fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgymryd â gwaith pellach yn eu cylch. Byddai llawer o'r argymhellion hefyd yn cael eu cynnwys o fewn blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru a fyddai nid yn unig yn cyflawni'r argymhellion ond a fyddai hefyd yn nodi ac yn cyflawni newidiadau i ymdrin â'r anghydraddoldebau dwfn y mae pobl ethnig leiafrifol yn eu hwynebu yn ystod eu bywyd.

Ehangwyd cylch gwaith yr Is-grŵp i gynnwys monitro'r broses o roi argymhellion ei Adroddiad Economaidd-gymdeithasol ar waith ac, wrth i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol gael ei ddatblygu, rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru, drwy Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, wrth ddatblygu'r Cynllun gan sicrhau bod uwch-arweinwyr ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus yn ymrwymedig i'r Cynllun ac yn barod i arwain y gwaith o'i roi ar waith.

Cyn y cyfarfod cyn yr etholiad, cafodd cyfarfodydd y grŵp Economaidd-gymdeithasol eu hatal a gwnaed ymrwymiad i drefnu cyfarfodydd yn y dyfodol unwaith y byddai'r Senedd wedi ailgynnull.
Gofynnwyd am benderfyniad Gweinidogol ynghylch dyfodol y Grŵp Economaidd-gymdeithasol.

## Casgliad

Cydweithiodd y Grŵp Cynghori a'i is-grwpiau, a oedd yn cynnwys academyddion, clinigwyr, cynrychiolwyr gofal cymdeithasol, undebau llafur, arbenigwyr data, rheolwyr y gweithlu, sefydliadau'r trydydd sector ac aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol, yn gyflym, gan arwain a llywio dull Llywodraeth Cymru o amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed rhag effaith ddifrifol y pandemig.

Datblygodd y Grŵp a'i is-grwpiau ategol adnodd asesu risg syml ar gyfer y gweithlu a gyflwynwyd i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yn ogystal â'r sector gofal cymdeithasol, a chyhoeddodd yr adroddiad grymus ond gofidus ar y ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n dylanwadu ar ganlyniadau gwaeth o ran COVID-19 i grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, gan gyflwyno 37 o argymhellion i'w gweithredu a dderbyniwyd ac a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

Er nad yw'r Grŵp Cynghori a'i is-grwpiau yn weithredol, wrth i'r cyfraddau heintio leihau'n raddol dros gyfnod yr haf, maent yn parhau'n ymwybodol o amgylchedd cyfredol y pandemig, ac yn barod i ailgynnull os bydd angen iddynt wneud hynny er mwyn rhannu eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u profiad cyfun i sicrhau y caiff cymunedau a phobl fwyaf agored i niwed Cymru eu hamddiffyn.

## Atodiad 1: Grŵp Cynghori Prif Weinidog Cymru ar COVID-19 – Yr Effaith ar Iechyd Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: Cylch Gorchwyl Drafft

Mae Llywodraeth Cymru yn poeni bod COVID-19, yn ôl pob tebyg, yn cael effaith anghymesur ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, gan arwain at ganlyniadau iechyd andwyol.

Sefydlwyd grŵp i roi cyngor i'r Prif Weinidog a'i Gabinet ar y mater hwn. Bydd y grŵp yn gweithio gyda rhanddeiliaid sy'n cynrychioli cymunedau pobl ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, cynghorwyr arbenigol o Gymru a phob rhan o'r DU (yn enwedig Public Health England) ynghyd â chydweithwyr rhyngwladol i rannu gwybodaeth a dulliau gweithredu er mwyn ystyried y mater hwn ac ymdrin ag ef.

**Nodau'r Grŵp**

Bydd y Grŵp yn rhoi cyngor ar y canlynol:

- Unrhyw fesurau effeithiol y gellid eu rhoi ar waith i feintioli a gwerthuso risgiau;
- Unrhyw niwed y gellir ei osgoi a mesurau asesu risg effeithiol;
- Ymyriadau posibl a datrysiadau posibl i systemau;
- Unrhyw faterion eraill a bennir gan Weinidogion

**Yr Aelodau:**

- Bydd y Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o blith swyddogion Llywodraeth Cymru, gweithwyr GIG a gweithwyr gofal du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru, gan fanteisio ar arbenigedd y rheini sy'n ymwneud â gwaith casglu a dadansoddi data ac ym maes rheoli'r gweithlu, iechyd galwedigaethol, ansawdd a diogelwch, academaidd, ac unrhyw arbenigedd ychwanegol fel y bo angen;
- Bydd y Grŵp yn cyfarfod ar ffurf rithwir ac yn cyflwyno adroddiadau wythnosol i Weinidogion yn ystod cyfnod argyfwng COVID-19;
- Caiff yr aelodau a'r cyngor y cytunir arno eu cyhoeddi;
- Mae'n bosibl y caiff is-grwpiau eu sefydlu gan fanteisio ar arbenigedd ychwanegol ar gyfer tasgau penodol, er mwyn adrodd yn ôl i'r prif grŵp;
- Bydd y grŵp yn gofyn am fewnbwn gan sefydliadau ehangach a chymunedau pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac mae'n bosibl y caiff cyfranwyr eu gwahodd i wneud cyflwyniadau i'r grŵp.

**Amcanion a chynllun gwaith:**

1. **Gwerthuso data**
   **Cwestiynau allweddol: Beth yw maint a natur unrhyw risg ychwanegol o ran COVID-19 i bobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac a oes niwed y gellid ei osgoi?**

- Deall gwahaniaethau mewn niferoedd a chyfraddau profion rhwng grwpiau ethnig drwy ystyried data ar COVID-19 ac ethnigrwydd gan bob ffynhonnell sydd ar gael, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Banc Data Cyswllt

Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW), cofnodion staff electronig, Canolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys (ICNARC), y Swyddfa Ystadegau Gwladol a WCCP ac achosion wedi'u cadarnhau gan labordai;

- Deall gwahaniaethau o ran nifer yr unigolion a gaiff eu derbyn i'r ysbyty rhwng grwpiau ethnig gan ddefnyddio systemau gwyliadwriaeth estynedig i gyfrifo niferoedd a chyfraddau derbyn i'r ysbyty, cyfraddau derbyn i unedau gofal dwys/unedau dibyniaeth uchel, a chanlyniadau eraill;
- Deall gwahaniaethau mewn cyfraddau marwolaeth ymhlith grwpiau ethnig gan ddefnyddio achosion wedi'u cadarnhau gan labordai, data marwolaethau, data cydafiachedd SAIL a gwaith dadansoddi pellach.

**2. Mesurau yn ymwneud â'r gweithlu a chyflogaeth**
**Cwestiynau allweddol: A ddylid rhoi unrhyw fesurau ychwanegol ar waith i bobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn y gwaith a sut y dylid asesu risgiau?**

- Asesu cyfraddau amlygiad gan ddefnyddio data enwaduron ethnigrwydd ymhlith cyflogeion y GIG gan ddefnyddio data cofnodion gwasanaeth cyflogaeth y gweithlu;
- Adolygu'r broses asesu risg a chyngor i gyflogeion iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi sylw penodol i bresenoldeb cydafiacheddau a allai effeithio ar risg COVID-19;
- Adolygu'r cyngor ar gyfarpar diogelu personol i grwpiau sy'n wynebu risg ac unrhyw system i ymdrin â phryderon lle nad oes cyfarpar o'r fath ar gael;
- Adolygu mesurau ethnigrwydd yn y protocol hysbysu am farwolaethau a threfniadau adrodd RIDDOR.

**3. Mesurau yn ymwneud ag iechyd cymunedol ac iechyd y cyhoedd**
**Cwestiynau allweddol: A oes unrhyw fesurau neu ymyriadau iechyd y cyhoedd ychwanegol a fyddai'n lleihau unrhyw effaith anghymesur a gaiff COVID-19 ar gymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol?**

- Adolygu'r angen posibl am gyngor deietegol neu gyngor iechyd arall i leihau'r risg o COVID-19 ymhlith cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol;
- Adolygu hygyrchedd cyngor ac arweiniad ar gadw pellter cymdeithasol ac unrhyw heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflawni hynny mewn cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifo;.
- Gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i ddileu unrhyw rwystrau ieithyddol, rhwystrau diwylliannol neu rwystrau eraill sy'n atal negeseuon iechyd y cyhoedd rhag cael eu lledaenu a'u deall ymhlith grwpiau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol;
- Rhoi cyngor ar ffactorau economaidd-gymdeithasol a phenderfynyddion eraill posibl a all ddylanwadu ar ganlyniadau gwaeth o ran COVID-19 ymhlith grwpiau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, gan gynnwys ffactorau diwylliannol, rhagfarn ddiarwybod, oedran, rhywedd, llythrennedd, ac awgrymu opsiynau i wyr-droi unrhyw anghydraddoldebau.

**4. Gwaith ymchwil a gwerthuso parhaus i lywio tystiolaeth ac argymhellion Cwestiynau allweddol: Beth yw'r cwestiynau heb eu hateb am COVID-19 a chymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, a pha ddata neu astudiaethau sydd eu hangen arnom er mwyn eu hateb?**

- Ystyried ac ymateb i gwestiynau ymchwil, methodoleg a chanfyddiadau a gyhoeddir gan PHE mewn perthynas â phobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a COVID-19;
- Gwneud sylwadau ar dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a rhoi cyngor ar opsiynau mewn perthynas â mesurau a chamau diogelu ychwanegol priodol ar gyfer unigolion du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru;
- Nodi gwaith ymchwil ledled y DU ac yn rhyngwladol a allai fod o fudd i gymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru a'i ddefnyddio.

## Atodiad 2: Is-grŵp Gwyddonol ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol – Asesu Risg

**Cyd-gadeiryddion:** Yr Athro Keshav Singhal MBE, Cadeirydd BAPIO Cymru

Helen Arthur, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Busnes Corfforaethol

**Nodau'r Is-grŵp:**

- Cafodd grŵp gwyddonol ei gynnull i ystyried y dystiolaeth sy'n datblygu er mwyn gwneud argymhellion i Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol:
    - Asesiad risg yn y gweithle i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yng Nghymru;
    - Awgrymu camau ymarferol i liniaru'r risg i'r staff a nodwyd fel unigolion agored i niwed;
    - Ystyried y dystiolaeth sy'n datblygu a'r goblygiadau i'r gymuned ehangach.
- Cyflwyno argymhellion i Dr Andrew Goodall CBE, Prif Weithredwr GIG Cymru, y Prif Swyddog Meddygol, y Prif Swyddog Nyrsio ac Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, yn ystod argyfwng COVID-19.

**Yr Aelodau:**

- Bydd y Grŵp yn cyfarfod ar ffurf rithwir ac yn cyflwyno adroddiadau wythnosol i'r Grŵp Cynghori ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ystod cyfnod argyfwng COVID-19.
- Caiff y cyngor neu'r argymhellion y cytunir arnynt eu cyflwyno i Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru a'u cyhoeddi.

**Pethau i'w cyflawni**

- Argymell egwyddorion rhagofalol priodol i'w defnyddio gan gyflogwyr y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru, drwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru, cyflogwyr ac undebau.
- Argymell adnodd Asesu Risg ar gyfer y gweithle i staff â chydafiacheddau ac annog cydweithwyr du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i ddefnyddio'r llwybr hwn, er mwyn hyrwyddo arferion gorau o ran iechyd a diogelwch yn y gwaith.

- Ystyried y dulliau gweithredu sy'n cael eu hystyried yng ngwledydd eraill y DU ac argymell unrhyw ymyriadau ychwanegol er mwyn amddiffyn rhag COVID-19, gan gynnwys y goblygiadau i'r gweithlu a defnydd diogel ac effeithiol o gyfarpar diogelu personol.
- Argymell trefniadau casglu data parhaus a gwaith dadansoddi pellach er mwyn monitro cynnydd a chanlyniadau a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

**Aelodau'r Is-grŵp Gwyddonol ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Yr Athro Keshav Singhal, MBE FLSW MS(orth) FRCS M.Ch(orth)<br>*Llawfeddyg Orthopaedig Ymgynghorol CTMUHB* | BAPIO (Cymru) |
| Daniel Thomas<br>*Gwyddonydd Clinigol (Epidemioleg)* | Iechyd y Cyhoedd<br>Y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy |
| Ronan Lyons<br>*Athro Clinigol ym maes Iechyd y Cyhoedd* | Prifysgol Abertawe |
| Dr Marysia Hamilton-Kirkwood<br>*Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ym maes Iechyd y Cyhoedd* | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Ceri Harris<br>*Arweinydd cydraddoldeb* | Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Dr Kofi Obubie<br>*Endocrinolegydd ymgynghorol* | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Yr Athro Meena Upadhyaya<br>*Meddyg ymgynghorol ym maes geneteg* | Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Iqbal Singh<br>*Meddyg Ymgynghorol* | Cadeirydd y Ganolfan Rhagoriaeth ar gyfer Diogelwch i Bobl Hŷn |
| Jack Parry Jones<br>*Meddyg Ymgynghorol ym maes Gofal Dwys* | Ysbyty Athrofaol Cymru |
| Dr Has Shah BEM<br><br>*Meddyg Teulu* | Ysgrifennydd BAPIO Cymru |
| Dr Andrew Feyi-Waboso | |
| Helen Arthur<br>*Cyfarwyddwr Busnes Corfforaethol a'r Gweithlu* | Llywodraeth Cymru |
| Dr Heather Payne<br>*Uwch-Swyddog Meddygol ar gyfer Iechyd Mamau a Phlant* | Llywodraeth Cymru |
| Uzo Iwobi OBE,<br>*Cynghorydd Polisi Arbenigol ar Gydraddoldebau* | Llywodraeth Cymru |
| Gemma Nye<br>*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol* | Llywodraeth Cymru |
| Geraldine Buckley<br>*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol* | Llywodraeth Cymru |

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Helen Freese<br>*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Uwch-reolwr Llywodraethu a Chydraddoldeb* | Llywodraeth Cymru |

## Atodiad 3: Yr Is-grŵp effeithiau economaidd-gymdeithasol ac effeithiau cymdeithasol COVID-19 ymhlith Poblogaethau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Cyd-gadeiryddion: Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Emma Bennett, Llywodraeth Cymru

Dirprwyon: Ayanna Mathurine, Llywodraeth Cymru, Shavanah Taj, TUC Cymru

Diben:

- Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ffactorau economaidd-gymdeithasol a phenderfynyddion cymdeithasol ehangach sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd COVID-19 ymhlith pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- Monitro'r broses o weithredu argymhellion yr adroddiad economaidd-gymdeithasol.
- Rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru, drwy Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru.

Pethau i'w cyflawni:

1. Nodi ffactorau demograffig-gymdeithasol, daearyddol, economaidd-gymdeithasol neu ddiwylliannol allweddol a all fod yn cyfrannu at ganlyniadau andwyol anghymesur o ran COVID-19 mewn cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.

2. Cynnig opsiynau byrdymor i leihau unrhyw bosibilrwydd y bydd yr anghydraddoldebau a nodwyd yn gwaethygu.

3. Adolygu hygyrchedd cyngor ac arweiniad iechyd y cyhoedd cyfredol er mwyn trechu COVID-19, fel cadw pellter cymdeithasol, a gwneud sylwadau ar unrhyw heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflawni hynny ymhlith cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.

4. Nodi unrhyw rwystrau ieithyddol, rhwystrau o ran fformat, rhwystrau diwylliannol neu rwystrau eraill sy'n atal negeseuon rhag cael eu lledaenu a'u deall yn effeithiol ymhlith cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol a chymunedau amrywiol ac argymell atebion.

5. Argymell cwestiynau ymchwil posibl ar gyfer dadansoddiad tymor canolig a thymor hwy o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau COVID-19 mewn cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, gan gynnwys diwylliant, oedran, ffydd, rhywedd, anabledd a ffactorau unigol eraill, yn ogystal â rôl bosibl ffactorau systemig fel hiliaeth neu ragfarn ddiarwybod.

6. Rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth arbenigol mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â'r camau gweithredu hynny sy'n deillio o'r adroddiad economaidd-gymdeithasol.

**Aelodaeth a manylion cyswllt yr Is-grŵp Cynghori Economaidd-gymdeithasol ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Professor Emmanuel Ogbonna | Prifysgol Caerdydd |
| Daniel Thomas<br>*Gwyddonydd Clinigol (Epidemioleg)* | Iechyd y Cyhoedd<br>Y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy |
| Ruth Coombes - Pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cymru |
| Alicja Zalesinska | Tai Pawb |
| Rocio Cifuentes | EYST |
| Shavanah Taj | TUC Cymru |
| Trudy Aspinwall | TGP Cymru |
| Aled Edwards | Cytun |
| Gaynor Legall | |
| Dr Roiyah Saltus | |
| Ali Abdi | Race Council Cymru |
| Professor Robert Moore | NWREN |
| Maria Mesa | Women Connect First |
| Suzanne Duval | BAME Mental health Diverse Cymru |
| Humie Webbe | |
| Dr Salamatu Fada - Chair of North Wales African Society & part of Black History Management Committee at RCC | |
| Naomi Alleyne | CLILC |
| Jan Firby - Rheolwr Ansawdd Gofal Iechyd, Gofal Iechyd Poblogaethau | Llywodraeth Cymru |
| Uzo Iwobi OBE - Cynghorydd Polisi Arbenigol ar Gydraddoldebau | Llywodraeth Cymru |
| Dr Heather Payne - Uwch-Swyddog Meddygol ar gyfer Iechyd Mamau a Phlant | Llywodraeth Cymru |
| Emma Bennett - Pennaeth Cydraddoldeb, Cymunedau | Llywodraeth Cymru |
| Hannah Fisher - Uwch-reolwr Polisi Hil, Ffydd a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymunedau | Llywodraeth Cymru |
| Phil Jenkins - Pennaeth Cymorth Cydraddoldeb, ESCN | Llywodraeth Cymru |
| Sara Ahmad - Economegydd, Prosperous Futures Divisionp | Llywodraeth Cymru |
| Steven Macey - Uwch-Swyddog Ymchwil, Prosperous Futures Division | Llywodraeth Cymru |
| Sue Leake - Prif Ystadegydd, GGD | Llywodraeth Cymru |
| Stephanie Jones - Cymorth Tîm, IGC – Gofal Iechyd Poblogaethau | Llywodraeth Cymru |